# Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Perchnogaeth ceir

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | | Cymru a Lloegr | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | |
| **Pob aelwyd** | 78,829 | | **81,759** | | 1,302,676 | | **1,347,114** | | 23,366,044 | | **24,783,199** | |
| **Dim ceir na faniau** | 14,826 | 18.8% | **12,594** | **15.4%** | 298,519 | 22.9% | **261,859** | **19.4%** | 5,989,770 | 25.6% | **5,777,957** | **23.3%** |
| **1 car neu fan** | 34,265 | 43.5% | **33,731** | **41.3%** | 559,866 | 43.0% | **562,253** | **41.7%** | 9,861,642 | 42.2% | **10,236,898** | **41.3%** |
| **2 gar neu fan** | 21,756 | 27.6% | **24,722** | **30.2%** | 336,069 | 25.8% | **378,768** | **28.1%** | 5,777,662 | 24.7% | **6,485,738** | **26.2%** |
| **3 neu fwy o geir neu faniau** | 7,982 | 10.1% | **10,712** | **13.1%** | 108,222 | 8.3% | **144,234** | **10.7%** | 1,736,970 | 7.4% | **2,282,606** | **9.2%** |

*Dadansoddiad:*

- *Mae nifer yr aelwydydd heb gar neu fan wedi lleihau yn Sir Gaerfyrddin, yng Nghymru ac yng Nghymru a Lloegr.*
- *Mae nifer yr aelwydydd sydd ag 1 car neu fan wedi lleihau, ond mae nifer yr aelwydydd sydd â 2 gar neu fan, a 3 neu fwy o geir neu faniau wedi cynyddu yn Sir Gaerfyrddin, yng Nghymru ac yng Nghymru a Lloegr.*

*Diffiniad:*

***Ceir neu Faniau:***

*Nifer y ceir neu'r faniau a berchnogir, neu sydd ar gael i'w defnyddio, gan un neu fwy o aelodau aelwyd. Mae hyn yn cynnwys ceir a faniau cwmni sydd ar gael at ddefnydd preifat. Nid yw'n cynnwys beiciau modur neu sgwteri, nac unrhyw geir neu faniau sy'n perthyn i ymwelwyr.*

*Mae nifer y ceir neu'r faniau a gyfrifir mewn ardal yn ymwneud ag aelwydydd yn unig. Nid yw ceir neu faniau a ddefnyddir gan breswylwyr mewn sefydliadau cymunedol yn cael eu cyfrif.*

*Nodir bod gan aelwydydd sydd â 10 neu fwy o geir neu faniau 10 car neu fan yn unig.*

*Ymdriniwyd ag ymatebion a oedd yn nodi bod nifer y ceir neu'r faniau yn fwy na 20 fel ymatebion annilys a nodwyd gwerth amcangyfrifedig.*

***Aelwyd:***

*Y diffiniad o aelwyd yw un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn i'w gilydd o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio, ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta.*

*Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person y mae'r cyfeiriad yn breswylfa arferol iddo. Nid yw grŵp o breswylwyr tymor byr sy'n byw gyda'i gilydd yn cael ei ystyried yn aelwyd, nac ychwaith grŵp o bobl mewn cyfeiriad lle mae ymwelwyr yn unig yn aros.*

Ffynhonnell: Ystadegau Allweddol Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2022

Cynhyrchwyd gan y Tîm Dealltwriaeth Data, Cyngor Sir Caerfyrddin

Gellir defnyddio'r ystadegau hyn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

E-bost: Data@sirgar.gov.uk